

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-04-08

SLC105

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Teitl: Rheoliadau Rheoli Mangroedd Ysgol (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rheolaeth cyrff llywodraethu ar feddiannu a defnyddio mangroedd ysgol.

Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Mae testun Cymraeg rheoliad 10(a) yn cynnwys yr ymadrodd "neu benderfyniad a wneir yn unol â pharagraff 62 neu 63 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992". Nid oes ymadrodd cyfatebol yn y testun Saesneg. Felly, mae'r rheoliad yn anghyson ynghylch a yw trefniadau a wneir yn unol â'r paragraffau hyn yn dal i fod yn berthnasol, a dylid ei gywiro cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] 2. Mewn sawl lle yn y Rheoliadau, mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "must have regard to the desirability of the premises being made available for community use". Yr ymadrodd a ddefnyddir yn y testun Cymraeg yw "roi sylw i ba mor ddymunol fyddai trefnu bod y fangre ar gael at ddefnydd cymunedol". Mae'r pwyslais yn wahanol, gan fod y testun Saesneg yn gofyn bod yn rhaid rhoi sylw i'r egwyddor y byddai'r trefniant yn ddymunol, tra bo'r Gymraeg yn gofyn bod yn rhaid rhoi sylw i ba mor ddymunol fyddai'r trefniant, h.y. i ba raddau y byddai'n ddymunol. Gan ei bod yn angenrheidiol rhoi sylw i'r ffactor hwn, mae'n bwysig bod yn glir ac yn gyson yn ddwy iaith. [Rheol Sefydlog 15.2(vi a vii)]

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Ionawr 2008

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

Mynegodd y Llywodraeth ei bod yn derbyn pwynt 1 uchod, ac mae deddfwriaeth gywiro eisoes wedi cael ei drafftio. Ni dderbynnir yr ail bwynt, a darparwyd yr esboniad canlynol - "Nid yw'n hawdd cyfleu'r ymadrodd Saesneg "having regard to the desirability of" air am air yn Gymraeg gan y byddai'r defnydd o'r geiriau Cymraeg "dymunoldeb" neu "dymunolrwydd" am y gair Saesneg 'desirability' yn bosibl ond nid yn idiomatig. Ein nod yw llunio testun sy'n parhau idiomau'r ddwy iaith. Diffiniad y "New Shorter Oxford English Dictionary" o 'desirability' yw 'the quality of being desirable'. Fel y nodwyd gallai'r Gymraeg fel y mae gael ei chyfieithu i'r Saesneg fel 'having regard to how desirable it would be.' Byddai hyn yn cynnwys y cwestiwn 'a yw'n meddu ar y nodwedd o fod yn ddymunol neu o beidio â bod yn ddymunol?' yn ogystal â graddau o 'fod yn ddymunol' rhwng y ddau begwn. Rydym yn fodlon felly fod yr ymadrodd Cymraeg hwn yn gyfystyr â'r ymadrodd Saesneg. Ychwanegwn hefyd fod yr ymadrodd hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn is-ddeddfwriaeth yn y gorffennol heb sylwadau."